CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 24 Medi 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar gael yma.

Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yma.

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem agenda Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswllt sydd wedi'i gynnwys yn ei deitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Y Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams ac M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas.

C56 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd yr Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio a'i uwchlwytho i wefan Cyngor Bro Morganwg cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

C57 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr B.E. Brooks a S.D. Perkes.

C58 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2026 fel cofnod cywir.

C59 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Lle, dyddiedig 14 Gorffennaf 2026.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn un sylweddol, a bod y mater wedi datblygu ers i'r cynigion ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd a Natur gael eu trafod a'u cytuno gan y Cyngor Llawn. Roedd tudalennau 4 a 5 o'r prif adroddiad yn nodi manylion 18 o heriau, gan gynnwys dangos arweinyddiaeth gref, cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor tuag at genedlaethau presennol a'r dyfodol, gwneud gwahaniaeth nawr, a mesurau perfformiad.

Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad, wedi cyfeirio rhai camau gweithredu at Swyddogion perthnasol i'w hystyried ac wedi cyfeirio sylwadau i'r Cabinet eu hystyried ynghylch:-

- Dylai'r Cyngor sicrhau bod cyllid yn cael ei sicrhau i fonitro a rheoli ôl troed carbon yng nghyfnod adeiladu unrhyw ysgolion newydd a gwaith datblygu mawr arall i sicrhau eu bod yn effeithlon o ran ynni;
- Y dylai Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morganwg (CDLA) flaenoriaethu buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i leihau dibyniaeth ar gerbydau modur;
- Y dylid cymryd camau i alluogi'r Cyngor i wneud y mwyaf o osod paneli Ffotofoltäig (PF) mewn ysgolion.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr holl sylwadau yn ymwneud â materion yr oedd gwaith arnynt eisoes yn mynd rhagddo o fewn y Cyngor.

Diolchodd y Cabinet hefyd i'r ystod eang o swyddogion ar draws y Cyngor oedd yn gweithio o fewn agenda Prosiect Sero ac yn cyflawni canlyniadau rhagorol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at 'Project Zero: Challenge 10', a oedd wedi'i amlinellu ar dudalen 20 yr adroddiad, ac at y cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer y gwasanaeth casglu plastigau meddal – llwyddiant a oedd yn ddyledus i raddau helaeth i drigolion Bro Morgannwg a'r swyddogion perthnasol. Roedd trefniadau hefyd wedi'u gwneud gydag ysgolion i leihau gwastraff a gwella cyfraddau ailgylchu.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid diolch i'r Pwyllgor Craffu Lle am ystyried y mater.

(2) Bod y Cabinet wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor, a oedd yn cyfeirio at faterion yr oedd eisoes yn cael eu datblygu o fewn y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C60 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, dyddiedig 20 Gorffennaf 2026.

Dywedodd yr Arweinydd bod sylwadau diddorol wedi'u gwneud yn y cyfarfod, gan nodi bod y Cyngor wedi cymryd camau yn ddiweddar i gryfhau ei drefniadau craffu – ac roedd effeithiolrwydd y rhain eto i'w asesu – ond bod angen hefyd cryfhau'r ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau craffu. Cyflwynwyd mwy o waith grwpiau tasg a gorffen er mwyn ymchwilio'n ddyfnach i faterion penodol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor yr adroddiad yn ôl at y Cabinet er mwyn iddo oruchwylio a chymeradwyo camau gweithredu arfaethedig y Cyngor (Atodiad B i'r adroddiad) i ymateb i'r argymhellion.

PENDERFYNWYD – Y dylid diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater, nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig gan y Cyngor (Atodiad B i'r adroddiad) i ymateb i'r argymhellion.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C61 ARCHWILIO CYMRU: Y BLOCIAU ADEILADU? CYNLLUNIO CYFALAF MEWN CYNGHORAU YNG NGHYMRU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dyddiedig 20 Gorffennaf 2026.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad ac wedi ei gyfeirio at y Cabinet er mwyn iddo oruchwylio a chymeradwyo camau gweithredu arfaethedig y Cyngor (Atodiad B) i ymateb i'r argymhellion.

Roedd Adran 3 o'r adroddiad yn cyfeirio at ganfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru, gyda'r prif ganfyddiadau wedi'u rhestru ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad. Roedd Uned Rheoli Prosiectau wedi'i sefydlu, yn cynnwys nifer o reolwyr medrus a oedd yn gweithio ar draws Cyfarwyddiaethau ac yn cynorthwyo'r Cyngor i fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni prosiectau.

PENDERFYNWYD – Y dylid diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater, nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig gan y Cyngor (Atodiad B i'r adroddiad) i ymateb i'r argymhellion.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C62 DRAFFT O'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLB) 2025/26 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dyddiedig 20 Gorffennaf 2026.

Dywedodd yr Arweinydd fod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol a llywodraethu, mater a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r adroddiad a luniwyd ar gydweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned gael ei roi ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a byddai'n cael ei ddosbarthu gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth sylweddol ynghylch y posibilrwydd o sefydlu gweithgor cyllideb trawsbleidiol. Yn ogystal â chyflwyno sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer

gwelliannau (ar gyfer 2026/27) i'r Swyddogion eu hystyried a'u cynnwys yn Nrafft Datganiad Blynyddol y Llywodraeth ar gyfer 2025/26, gofynnodd y Pwyllgor wedyn i'r Cabinet ystyried sefydlu Gweithgor Cyllideb. Byddai hyn yn galluogi Aelodau Etholedig i archwilio cynigion cyllidebol ac arbedion yn fanylach. Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith eisoes ar y gweill i sefydlu Gweithgor Cyllideb o'r fath.

PENDERFYNWYD – Y dylid diolch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ystyried y mater, nodi'r adroddiad, a nodi bod y broses o sefydlu Gweithgor Cyllideb eisoes ar waith.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C63 ADRODDIAD DIWEDDARU: STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022-2032) (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Lle, dyddiedig 22 Medi 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod y cyfarfod wedi bod yn un cadarnhaol, a bod y Pwyllgor wedi trafod y newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn un o'r awdurdodau ailgylchu mwyaf llwyddiannus yn y DU, gyda chyfradd ailgylchu o 73%, diolch i'r swyddogion perthnasol a thrigolion Bro Morgannwg.

Roedd gwelliannau a gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth ailgylchu, gan gynnwys ymestyn y treial ailgylchu tecstilau llwyddiannus fel newid parhaol ar draws Bro Morganwg ac fel casgliad wythnosol o fis Tachwedd, a chyflwyno gwasanaeth casglu Cynhyrchion Hylendid Amsugnol (CHA) wythnosol ar sail treial cychwynnol ar draws y Barri, gan orffen ddechrau 2027 gyda'r bwriad o ymestyn os canfyddir ei fod yn llwyddiannus.

Yn amodol ar drefniadau cynllunio ac ariannu, cynigiwyd hefyd symud cerbydau fflyd y Cyngor o'r The Alps i safle gerllaw Ystad Fasnachu'r Iwerydd, gan leihau'r milltiroedd y mae cerbydau'n eu teithio a'r allyriadau carbon cysylltiedig. Byddai unrhyw gynnig o'r fath yn amodol ar dderbyn y caniatâd cynllunio, y cymeradwyaethau statudol a'r trefniadau ariannu angenrheidiol.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Strategaeth a chymeradwyo Cynllun Gweithredu diweddarach y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032), sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. Cyfeiriasant hefyd at Argymhellion 2.4 i 2.8 yr adroddiad, sy'n benodol i'r Cabinet, gan ofyn i eiriad Argymhelliad 2.8 gael ei newid i:

"*Bod y Cabinet yn ystyried adeiladu'r cyfleuster parcio fflyd arfaethedig yn Atlantic Trading Estate ac yn awdurdodi cychwyn y gwaith ar gyfer cam cyntaf y cynllun, yn amodol ar gael y caniatâd cynllunio, y cymeradwyaethau statudol a'r trefniadau ariannu angenrheidiol. Bod y Cabinet hefyd yn cydnabod, er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a ddaw yn sgil Cam 1, y byddai*

angen cyllid cyfalaf o tua £1.2m i fwrw ymlaen â Cham 2, a bod yn rhaid i'r Cabinet ystyried hyn wrth ystyried y cynnig sy'n ymwneud â Cham 1."

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn bosibl penderfynu dyrannu cyllid ar y cam hwn tra oedd y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ar y gweill. Nid oedd yn ddoeth chwaith ddyrannu cyllid i gynllun a oedd yn dal i fod yn amodol ar gymeradwyaethau cynllunio. Roedd yr adroddiad yn dangos cyfeiriad y daith, ac unwaith y byddai'r holl ganiatâd angenrheidiol yn ei le, gallai fod cyllid ar gael o ffynonellau amgen eraill hefyd. Felly, byddai'r cynnig yn rhan o'r drafodaeth yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ac yn cael ei ystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd John fod y cyflwyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn rhagorol a bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn wych; er bod cyfeiriad y daith wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, roedd yn ddoeth ystyried y cynnig ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid diolch i'r Pwyllgor Craffu Lle am ystyried y mater a chytuno ar Argymhellion perthnasol y Cabinet yn yr adroddiad.

(2) Y dylid ystyried unrhyw gynigion ariannu sy'n ymwneud ag Argymhelliad 2.8 yr adroddiad ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill y Cyngor fel rhan o'r broses barhaus o bennu'r gyllideb, ac yn amodol ar gael y caniatâd cynllunio, y cymeradwyaethau statudol a'r trefniadau ariannu angenrheidiol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C64 MONITRO CYFALAF CHWARTER 1 2026/27 – 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2026 (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf 2026/27, gan gwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2026 I 30 Mehefin 2026. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1; nodwyd yno hefyd gynlluniau gwerth dros £250,000 a darparwyd sgôr Coch/Oren/Gwyrdd i nodi lefelau risg.

Roedd y Rhaglen Gyfalaf yn uchelgeisiol, gan gynnwys cwblhau darpariaeth addysg arbenigol yn Ysgol Llyn Derw a thrawsnewid hen adeilad swyddfa o'r enw Cadoxton House yn y Barri yn fflatiau un ystafell wely modern ac ynni-effeithlon ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cynhwyswyd manylion am oedi – a achoswyd gan amrywiaeth o resymau – ym mharagraffau 4.42 i 4.61 o'r adroddiad, gyda'r rhan fwyaf o'r cynlluniau hynny naill ai wedi'u symud i gyfnod diweddarach yn y flwyddyn neu i'r flwyddyn ganlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru a oedd wedi ariannu ardal chwarae Palmerston yn y Barri, a oedd yn tystio i'r gwaith a gwblhawyd gan y Tîm Chwarae, gan greu amgylchedd cynhwysol ac ysgogol i blant anabl. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Tîm Chwarae wedi cynnal sawl digwyddiad llwyddiannus dros gyfnod yr haf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y Gwaith Sefydlogi Llethrau parhaus ym Marina Penarth a oedd yn mynd rhagddo'n dda, yn ogystal â gwaith sy'n dechrau ar ailosod colofnau goleuadau stryd a gwaith ar bont droed Gorsaf Dingle Road.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R cynnydd a wnaed wrth gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2026/27.

(2) Yn nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Yn nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(4) Yn cymeradwyo'r newidiadau a nodir ym mharagraffau 4.16 i 4.61 i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27 a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer blynyddoedd i ddod.

(5) Yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran prydlesu mewn perthynas ag IFRS16.

(6) Yn cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Adnoddau i'w ystyried, ac i unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor gael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.

(3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Argyfwng.

(4) Galluogi cynlluniau i symud yn eu blaenau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y blynyddoedd ariannol i ddod.

(5) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y sefyllfa o ran IFRS16.

(6) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

C65 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2026/27 (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet am sefyllfa monitro refeniw Chwarter 1 ar gyfer 2026/27; roedd hyn yn parhau i fod yn her ariannol sylweddol i'r Cyngor ar gyfer 2026/27 – hyd yn oed yn Chwarter 1 – gyda gorwariant corfforaethol net o £2.872m a diffisyt ychwanegol o £4m yn y sector ysgolion.

Roedd ysgolion yn gweithio'n adeiladol gyda'r Cyngor, gan reoli gwariant y flwyddyn gyfredol yn bennaf yn ogystal ag unrhyw ddiffisygion hanesyddol. Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion oedd y prif feysydd dan bwysau, ynghyd â chludiant ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), lle rhagwelwyd gorwariant o £644k.

Roedd pwysau o ran y galw yn bodoli oherwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a digartrefedd, er bod rhywfaint o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer y materion hynny. Roedd datblygiadau cadarnhaol ar draws y Cyngor yn cynnwys buddsoddi mewn gwasanaethau atal a llety, gyda'r Cyngor yn elwa ar incwm buddsoddi uwch a chostau benthyca is.

Roedd sefyllfa ariannol ysgolion yn destun pryder ledled Cymru, gydag ysgolion yn rhagweld diffyg cronedig cyffredinol o £14.9 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2027.

Roedd gan y Cyngor raglen arbedion gwerth £2.7 miliwn ar waith, a rhagwelwyd y byddai'n cyflawni neu'n lliniaru 90% o'r swm hwnnw.

Roedd y Tîm Arweinyddiaeth Uwch wedi gweithredu cyfres o fesurau rheoli cyllideb yn ystod y flwyddyn gan gynnwys cyfyngiadau monitro cyllideb wedi'u hatgyfnerthu ar gyfer gwariant diangen, defnyddio ymgynghoriaeth allanol a gwneud y mwyaf o'r gwariant grant sydd ar gael.

Trafodwyd y sefyllfa mewn cyfarfodydd diweddar o'r Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda ac Adnoddau ac ymrwymodd yr Arweinydd i anfon adroddiad wedi'i wirio'n annibynnol ar ganlyniadau ADY gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â llythyr gan Arweinwyr pob plaid at y Gweinidog, at Aelodau Craffu er gwybodaeth.

Tynnodd Chwarter 1 sylw at bwysau parhaus a arweinir gan y galw mewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Addysg a thrafnidiaeth gyda disgyblaeth ariannol barhaus a mesurau lliniaru ar waith i leihau'r gorwariant a ragwelwyd ac i amddiffyn cronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Williams, er bod penawdau am orwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddangos yn aml, ei bod yn bwysig cydnabod bod gan Fro Morgannwg boblogaeth hŷn. Dangosodd Atodiad 4 i'r adroddiad fod y meysydd gwasanaeth yn gwneud arbedion, gyda bron i 70% ohonynt yn debygol o gael eu cyflawni. Edrychai ymlaen at y drafodaeth adeiladol yn y pwyllgor craffu.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig cofio bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf agored i niwed, a bod mentrau fel y

gwelliannau i drefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty o fudd i deuluoedd, ond eu bod yn dod â chostau.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid yr adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Y dylid yr adroddiad at y Pwyllgor Craffu Adnoddau i'w ystyried, ac i unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor gael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am gyllid i adolygu'r sefyllfa ar gyfer Chwarter 1.

C66 MONITRO RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 1 2026/27 (AG/BA) (PYWLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn nodi sefyllfa Rheoli'r Trysorlys yn erbyn nifer o Ddangosyddion Trysorlys a Darbodus allweddol ar 30 Mehefin 2026 gyda dangosyddion darbodus a thrysorlys wedi'u diweddaru a nodir yn Atodiad A gan gynnwys amcangyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor eraill fel rhan o safon prydlesu IFRS16.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet a diweddarodd hefyd y dangosyddion darbodus i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Roedd yr holl newidiadau o fewn y terfynau fel y'u nodir yn y Strategaeth Rheoli a Buddsoddi Trysorlys.

Mater sylweddol a amlygwyd yn yr adroddiad oedd y gostyngiad parhaus yn y cronfeydd wrth gefn a'r balansau oedd ar gael i gefnogi benthyca mewnol – dull a fyddai fel arfer yn osgoi costau benthyca allanol ychwanegol – ond roedd adnoddau o'r fath wedi'u disbyddu i raddau helaeth. O ganlyniad, ariannwyd y Rhaglen Gyfalaf fwyfwy drwy fenthyca allanol ar gyfradd sefydlog gan y Public Works Loan Board; roedd hyn yn cynnig cost fwy rhesymol i'r Awdurdod ac yn sicrhau eglurder ynghylch costau ariannu yn y dyfodol.

Tra oedd cyfraddau benthyca yn parhau i fod yn uchel, defnyddiodd y Cyngor fenthyciadau tymor byrrach i alluogi dull mwy hyblyg dros y tymor byr a chanolig. Ni chafwyd unrhyw fenthyca newydd yn Chwarter 1, ond disgwylid mwy o fenthyca yn Chwarter 2.

Ar ddiwedd mis Mehefin, roedd gan y Cyngor gyfanswm benthyca allanol o £178.46m, o'i gymharu â £181.87m ar ddiwedd mis Mawrth 2026, ffigwr a oedd yn adlewyrchu ad-daliadau benthyciad arferol ar ddiwedd y Chwarter.

O ran perfformiad buddsoddi, cynyddodd balansau buddsoddi yn ystod y Chwarter, yn bennaf oherwydd amseriad llifoedd incwm a gwariant.

Cynyddodd cyfanswm y buddsoddiadau o ychydig dros £37m i £56.6m erbyn diwedd mis Mehefin, gyda buddsoddiadau wedi'u dosbarthu ar draws ystod o bartïon cyfatebol risg isel. Roedd y gyfradd elw gyfartalog tua 4.1%.

Nododd yr adroddiad fod rhagolygon cyfredol yn dangos y gallai cymhareb costau ariannu'r Cyfrif Refeniw Tai fod yn uwch na'r lefelau targed mewn blynyddoedd i ddod – nid yn y flwyddyn gyfredol – a byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu fel rhan o'r Rhaglen Gwella Tai ar gyfer 2027/28.

O ran yr amgylchedd economaidd, parhaodd ansefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol, arhosodd chwyddiant yn uwch na tharged 2% Banc Lloegr, a chadwyd cyfradd y banc ar 3.75%. Roedd ansicrwydd hefyd ynghylch symudiadau cyfraddau llog yn y dyfodol ac ansefydlogrwydd yn y farchnad o ran bondiau a marchnadoedd ariannol. Byddai Cynghorwyr Trysorlys y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad ac yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer penderfyniadau benthyca a buddsoddi yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Dabl 1 yn yr adroddiad, sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf yn ôl gwasanaeth, gan dynnu sylw at uchelgais y Cyngor. Byddai parhau i fuddsoddi mewn cyfalaf hefyd yn lleihau gwariant refeniw. Darparodd Llywodraeth Cymru flaenorol gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod, a byddai'r Cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru newydd am gefnogaeth yn y dyfodol er mwyn gwneud gwelliannau i drigolion Bro Morgannwg a lleihau'r baich ar dalwyr Treth y Cyngor.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Y DYLID derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Chwarter 1 2026/27, ac y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu, gydag unrhyw Argymhellion yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried y sefyllfa fonitro ar gyfer Rheoli'r Trysorlys fel yr oedd ar 30 Mehefin 2026, ac er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y sefyllfa o ran Rheoli'r Trysorlys.

C67 DIWYGIADAU I BENODIADAU I GYRFF ALLANOL – CYNGOR AR Y CYD CYMRU (AG/BA) (DIM PWYLLGOR CRAFFU PERTHNASOL) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i alluogi'r Cyngor i gael ei gynrychioli ar y Cyd-gyngor i Gymru: Ochr y Gweithwyr, yn unol â'u trefniadau cyfansoddiadol diwygiedig.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau yn cael eu penodi i Gyngor Cydweithredol Cymru (ochr y Cyflogeion), gyda'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy fel penodiad dirprwyol.

(2) Y dylid penodiad yr Aelodau canlynol fel rhan o'r Cydweithrediad Llunio ein Llesiant (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) yn cael ei gymeradwyo:

Y Cynghorydd Samantha Campbell (clwstwr Canolog)
Y Cynghorydd Marianne Cowpe (clwstwr Dwyreiniol)
Y Cynghorydd Neil Thomas (clwstwr Dwyreiniol)

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gael ei gynrychioli yng Nghyngor Cydweithredol Cymru: Ochr y cyflogeion yn unol â'u trefniadau cyfansoddiadol diwygiedig.

(2) Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gael ei gynrychioli fel rhan o'r Cydweithrediad Llunio ein Llesiant.

C68 BARRY MAKING WAVES – ADRODDIAD DIWEDDARU MEDI 2026 (AG/BA) (DIM PWYLLGOR CRAFFU PERTHNASOL) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau'r Mole a Swyddfa'r Doc. Roedd y prosiectau hynny'n cael eu hariannu drwy Gronfa Grantiau Lefelu'r DU.

O ran y Mole, ac ers cyhoeddi'r adroddiad, roedd Swyddogion wedi parhau â thrafodaethau adeiladol gyda Phorthladdoedd Prydain Cysylltiedig ynghylch y trefniadau tir sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect. Er bod nifer o faterion yn parhau i fod yn destun trafodaethau ac nad oedd unrhyw delerau terfynol wedi'u cytuno, roedd y Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i sicrhau ateb y gellir ei gyflawni a symud y cynllun ymlaen. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

Roedd paragraff 4.29 yn manylu ar yr amserlenni ar gyfer y rhaglen a fyddai'n cael eu hadolygu a'u mireinio wrth i'r prosiect fynd rhagddo, gyda llawer o drigolion y Barri â diddordeb yn y gwaith o adeiladu'r Ganolfan Addysg a Gweithgareddau Chwaraeon Dŵr a ddisgwylir ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2028.

Cynigiodd yr Arweinydd ail Argymhelliad i'r adroddiad ynghylch diolch i'r Uned Rheoli Prosiectau am eu gwaith o fewn blaenoriaethau cystadleuol er mwyn bwrw ymlaen â'r adroddiad a'r trefniadau a'r cynnydd a wneir mewn perthynas â phrosiectau Barry Making Waves, a chytunwyd ar hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod yr adroddiad yn dangos uchelgais yr Awdurdod ar gyfer y Barri fel tref fwyaf Cymru o ran poblogaeth, ac y byddai'r prosiectau'n cael eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yr Awdurdod.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo'r trefniadau a'r cynnydd sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â phrosiectau Barry Making Waves.

(2) Y dylid diolch i'r Uned Rheoli Prosiectau am eu gwaith wrth ddelio â blaenoriaethau cystadleuol er mwyn bwrw ymlaen â'r adroddiad a'r trefniadau a'r cynnydd sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â phrosiectau Barry Making Waves.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) I hysbysu'r Cabinet am y sefyllfa bresennol o ran y prosiectau a'r cyllid gan Lywodraeth y DU.

C69 ADOLYGIAD O ARDALOEDD PLEIDLEISIO A LLEOLIADAU PLEIDLEISIO YN ARDAL ETHOLIADOL BRO MORGANNWG (AG/BA) (PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet am ddechrau adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio a Lleoliadau Pleidleisio o fewn ardal etholiadol Bro Morgannwg cyn Etholiadau Llywodraeth Leol ar 6 Mai 2027.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod yr adroddiad yn bwysig i drigolion Bro Morgannwg yn ogystal ag ymgeiswyr gwleidyddol ar gyfer mis Mai 2027, gan fod yn rhaid i orsafoedd pleidleisio fod yn hygyrch. Anogodd drigolion i fynegi eu barn, i geisio sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn cael eu cynnwys yn eu wardiau priodol, ac i ystyried a oedd safleoedd eraill y gellid eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio a fyddai'n osgoi defnyddio ysgolion, gan fod hynny'n achosi aflonyddwch i addysg.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Cytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â'r adolygiad a'r amserlen.

C70 LLWYBR TEITHIO LLESOL O SULLY I COSMESTON (DA/LC) (PWYLLGOR CRAFFU LLE) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar ran y Dirprwy Arweinydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynghylch datblygu Llwybr Teithio Llesol Sully i Cosmeston, amlinellu'r cynnydd hyd yma, a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer pwerau dirprwyedig a threfniadau ariannu i fwrw ymlaen â'r gwaith cyflawni.

Roedd y Cyngor yn cydnabod y manteision sy'n deillio o fod yn egnïol ac yn yr awyr agored, a byddai llwybr teithio llesol Sully i Cosmeston yn annog cerdded, beicio a defnyddio offer ar olwynion ar hyd cyswllt llwybr cerdded/beicio 2.5km.

Roedd paragraff 3.5 o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed yn sgil cyllid Craidd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ac roedd y broses o drosglwyddo tir gan Lywodraeth Cymru wedi'i hamserlennu i ddechrau yn 2026.

Ar hyn o bryd, National Highways oedd yn berchen ar y strwythurau ar hyd y llwybr, a byddai angen i'r Cyngor eu cymryd drosodd; roedd pedwar opsiwn uwchraddio wedi'u datblygu, a nodwyd y rhain ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Roedd y llwybr o Sully i Cosmeston yn un o'r llwybrau Teithio Llesol y gofynnwyd amdanynt fwyaf yn Fro Morgannwg, gyda'r posibilrwydd o gysylltu wedyn â Llwybr Taf yr holl ffordd i Aberhonddu.

Roedd Adran 6 o'r adroddiad yn nodi'r camau nesaf, ac roedd Adran 9 yn ystyried canfyddiadau'r cynllun hyd yma.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Baragraffau 5.2 a 5.3 o'r adroddiad, lle byddai'r cynllun yn darparu cysylltiad pwysig â'r llwybr 'Railway Walk' presennol rhwng Cosmeston Drive a Plymouth Road/Gorsaf Reilffordd Penarth, yn ogystal â darparu llwybr teithio llesol di-dor a diogel sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gerdded, defnyddio cymhorthion symudedd neu feicio i Ysgol Stanwell, a lleihau pwysau traffig yn yr ardal. Byddai cost gyfalaf un-tro a fyddai o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mater i'r Weithrediaeth benderfynu arno oedd hwn.

Y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r cynnydd o ran dylunio, cymeradwyaethau statudol a gwaith paratoi ar gyfer Llwybr Teithio Llesol Sully i Cosmeston.

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai a Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth, ar y cyd â'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy, yr Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Swyddog Monitro, i fwrw ymlaen â cheisiadau am gyllid, trefniadau trosglwyddo tir, a chaffael y gwasanaethau proffesiynol a'r contractwyr sydd eu hangen ar gyfer y cynllun, yn amodol ar gadarnhau cyllid, cael yr holl gymeradwyaethau statudol angenrheidiol a chydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor a Rheolau Gweithdrefn Contractau.

(3) Y dylid cymeradwyo cyflwyno ceisiadau am gyllid allanol i'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau cyllid cyflawni ar gyfer y cynllun.

(4) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth i ymrwymo i drwyddedau ar gyfer mynediad i dir trydydd parti a'u datblygu lle bo angen, er mwyn galluogi cynnal arolygon sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu'r cynllun.

(5) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth i ymgymryd â chaffael a dyfarnu contractau ar gyfer y cynllun, yn amodol ar gyllid wedi'i gadarnhau a darpariaeth gyllidebol, derbyn y cymeradwyaethau statudol angenrheidiol, trefniadau tir a strwythurau boddhaol, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

(6) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gymeradwyo'r ddogfennaeth gyfreithiol derfynol a chwblhau neu weithredu'r contractau yn dilyn y penderfyniad dyfarnu contract perthnasol.

(7) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy, yr Arweinydd Gweithredol ac Aelod y Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, a Phennaeth Cyllid/Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ymrwymo i gytundeb trosglwyddo gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y tir (a nodir yn Atodiad C i'r adroddiad) sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu'r cynllun, boed hynny drwy ystyriaeth ariannol neu ddulliau eraill y cytunwyd arnynt yn gydfuddiannol.

